PAPUR AR GYFER RHAN O GYFLWYNIAD GAN CWMNI BRO FFESTINIOG I GYNHADLEDD BUSNESAU CYMDEITHASOL CYMRU

25 / 09 / 2019

# MODEL, MANIFFESTO A MUDIAD CYMUNEDOL

**ADRAN A.** Dyfodol Model Cymunedol Bro Ffestiniog
**ADRAN B.** Maniffesto a Mudiad Cymunedol i Gymru

CWMNI BRO FFESTINIOG

WWW.CWMNIBRO.CYMRU

# ADRAN A

# DYFODOL MODEL CYMUNEDOL BRO FFESTINIOG

Mae **Cwmni Bro Ffestiniog** yn rhwydwaith o bedair ar ddeg o fentrau cymdeithasol. Llwyddodd y Cwmni i hwyluso cydweithrediad rhwng y mentrau sy'n aelodau o'r rhwydwaith a chydag elfennau o'r sectorau preifat a chyhoeddus sy'n greiddiol i economi sylfaenol yr ardal. Mae'r model cydweithredol ac integredig o ddatblygu cymunedol a arloesir yn cyfuno elfennau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannnol y gymuned. Pwysleisir mai cychwyn a wnaethpwyd ar weithredu'r model ond daeth yn gynyddol amlwg cymaint yw potensial y model, nid yn unig ar gyfer Bro Ffestiniog ond yn ehangach ar gyfer cymunedau ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Ym Mro Ffestiniog mae newid diwylliannol ar droed; yn gynyddol i wneud pethau trosom ein hunain. Ar y sylfaen hwn adeiladir y camau nesaf yn y datblygiad hwn ac fe'i nodir isod.

**A1.** Hwyluso twf a datblygiad y mentrau cymdeithasol presennol a mentrau newydd ym Mro Ffestiniog.

**A2.** Hybu cydweithrediad pellach rhwng y sector cymunedol a'r busnesau preifat sydd wedi'u hangori'n lleol.

**A3.** Cydweithredu pellach gyda llywodraeth ar lefel cynghorau cymuned, Gwynedd, Cymru, y Deyrnas Gyfunol a'r Undeb Ewropeaidd.

Cydweithio ymhellach gydag asiantaethau datblygiad sirol a chenedlaethol, megis Arloesi Gwynedd, Mantell Gwynedd, Canolfan Cydweithredol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

**A4.** Gweithio gyda'r byd academaidd, yn cynnwys Adran Busnes Prifysgol Manceinion, a chyda Rhwydwaith yr Economi Sylfaenol i ymchwilio'r berthynas rhwng model Cwmni Bro Ffestiniog o ddatblygu cymunedol integredig a theori ac ymarfer datblygiad yr economi sylfaenol.

**A5.** Cynyddu a ffurfioli'r cydweithrediad, sydd eisoes ar y gweill, rhwng Cwmni Bro Ffestiniog a chymunedau chwarelyddol cyfagos yng Ngwynedd. I'r pwrpas hwn sefydlir cwmni cymdeithasol, Cwmni Llechan Lân, ar y cyd rhwng Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Bro Ffestiniog i hybu rhwydweithio ar draws y cymunedau hyn ac i rannu gwybodaeth a phrofiad gyda chymunedau eraill yng Ngwynedd a thu hwnt er mwyn hybu'r cymunedau hyn i ddatblygu.

**A6.** Ehangu'r cydweithrediad rhwng mentrau cymdeithasol ar draws Cymru sy'n gweithio'n y Gymraeg er mwyn cryfhau'r berthynas rhwng datblygiad cymunedol a chynnal a meithrin yr iaith a'r diwylliant Cymraeg.

**A7.** Gweithio ar brosiect gydag ardaloedd chwarelyddol, glofäol a chefn gwlad ar draws Cymru i greu cyfleoedd addysgol a phrofiad gwaith i feithrin arweinwyr cymunedol y dyfodol.

**A8.** Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi mapio busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn 2018/19 gan gymharu'r canlyniadau gydag arolygon blaenorol (gweler:businesswales.gov.wales/socialbusinesswales). Dengys yr ymchwil y bu twf cyson yn nifer a maint busnesau cymdeithasol ond bod cryn botensial nad yw'n cael ei wireddu. Diffyg mynediad at gyllid yw'r rheswm pennaf a roddir pam bod cyfyngu ar dwf yn sector y busnesau cymdeithasol.

Mae Cwmni Bro Ffestiniog ar hyn o bryd yn hwyluso trafodaeth ar gynllunio corff cyllidol yn benodol i fuddsoddi yn y sector cymunedol.

**A9.** Creu strategaeth a maniffesto economaidd a chymunedol ar gyfer dyfodol amgen i Wynedd a Môn.

**A10.** Datblygiad pellach **BROcast** Ffestiniog, sef darlledu digidol cymunedol, a chydweithio gydag ardaloedd eraill i hybu rhwydwaith o gyfryngau cymunedol arloesol ar draws Cymru.

RHANNU - GWELD - GWRANDO

BRO CAST Ffestiniog

“I RADDAU HELAETH MAE’R CYFRIFOLDEB AM EIN DYFODOL YN EIN DWYLO NI. MAE CYFLE YN YR ARDAL HON I NI GREU DYFODOL AMGYLCHEDDOL, ECONOMAIDD, A CHYMDEITHASOL YN CODI O’R GORAU YN EIN TRADDODIAD DIWYLLIANNOL. RYDYM WEDI DECHRAU ARLOESI, AC RWAN MAE ANGEN GWEITHREDU, DYMA’R HER I NI BOBOL BRO FFESTINIOG”

# ADRAN B

# MANIFFESTO A MUDIAD CYMUNEDOL I GYMRU

**B1.** Mae model Cwmni Bro Ffestiniog o ddatblygu cymunedol integredig yn cynnig patrwm y gellir ei efelychu a'i addasu gan gymunedau eraill yng Nghymru a thu hwnt. Eisoes mae hyn yn dechrau digwydd. Er enghraifft, mae cynlluniau ar y gweill i rwydweithio mentrau cymdeithasol ar Ynys Môn, dan y teitl Bro Môn.

**B2.** Trwy fabwysiadu'r model o ddatblygu cymunedol ac asio'r model gydag egwyddorion a datblygiad yr economi sylfaenol credir bod potensial i drawsnewid economi a chymunedau Cymru. Dechreuwyd creu strategaeth a maniffesto economaidd a chymunedol ar gyfer dyfodol amgen i Wynedd a Môn. Y bwriad yw cydweithio gyda chymunedau eraill i ehangu ar y maniffesto ar gyfer Cymru gyfan. Bydd y maniffesto yn cynnwys gwahanol adrannau ar y camau y gallesid eu cymeryd gan unigolion, cymunedau, cynghorau cymuned a sirol, asiantaethau datblygu a Llywodraethau Cymru, y Deyrnas Gyfunol a'r Undeb Ewropeaidd.

**B3.** Mae model Cwmni Bro Ffestiniog o ddatblygu cymunedol integredig yn seiliedig ar egwyddorion cydweithrediad yn hytrach na chystadleuaeth, ar gyd-gynhyrchu, ar greu elw a gwerth cymdeithasol, ar ddatblygiad integredig yn hytrach na'r seilos y mae'r wladwriaeth yn gaeth iddo, ar hwyluso yn hytrach na rheoli, ar gynnal a datblygu cymuned a diwylliant, ar rhyddhau yn hytrach na rheoli ein pobl.

**B4.** Mae traddodiad o fenter cymunedol yn rhedeg trwy hanes Cymru ac mae cyfle i adeiladu ar yr etifeddiaeth hwn. Yn ôl pob tebyg, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg medrai canran uwch o bobl yng Nghymru ddarllen ac ysgrifennu nag mewn unrhyw wlad arall. Cyflawnwyd hyn drwy fenter cymunedol blaengar yr ysgolion cylchynol. Codwyd addoldai ar hyd a lled y wlad, neuaddau gweithwyr, cymdeithasau adeiladu, mentrau cydweithredol amaethyddol, clybiau chwaraeon, siopau cydweithredol, undebau credyd, mudiadau a phleidiau gwleidyddol, undebau llafur, cyrff addysgol a diwylliannol, gwasanaethau iechyd cymunedol a myrdd o fentrau elusennol amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol hyd at y dydd heddiw. Y sialens yw addasu'r traddodiad cyfoethog hwn o fenter cymdeithasol ar gyfer creu ein dyfodol.

**B5.** Mae'n traddodiad a'n hanes o fentergarwch cymunedol yn cynnig gwersi sylfaenol ar gyfer ein gwleidyddiaeth heddiw. Er enghraifft, roedd gweledigaeth 'The Miners Next Step', a gyhoeddwyd ym 1912, yn un o berchnogaeth a rheolaeth ddemocrataidd gweithwyr a chymuned ar y diwydiant glo.  Math o gymunedoli oedd hyn yn hytrach na'r gwladoli biwrocrataidd a gafwyd o du'r wladwriaeth. I'r chwith gwleidyddol heddiw mae'r cwestiynau ynglŷn â natur democratiaeth, a'r balans rhwng rôl y wladwriaeth a rôl y gymuned i'r dyfodol yn allweddol.

**B6.** Mae'n traddodiad a'n hanes cymunedol hefyd yn cynnig gwersi sylfaenol ar gyfer addysg heddiw. Wrth i'r wladwriaeth wasanaethu anghenion cyfalaf yn gynyddol, collwyd llawer o weledigaeth a thraddodiad addysg y gweithwyr ac addysg gymunedol. Heddiw, rydym angen addysg ar gyfer deall a datblygu cymuned ar sail egwyddorion datblygiad cymunedol ac wedi'i sylfaenu ar athroniaeth a gweledigaeth ddilechdidol, integredig a chyfannol. Persbectif ecosystemau sydd ei angen ar gyfer cymuned yn hytrach na'r rhaniadaeth sy'n nodweddu addysg ar gyfer cyfalaf. Yng ngeiriau'r bardd Waldo Williams:

"*Rhag y rhemp sydd i law'r dadelfennwr*
*A gyll, rhwng ei fysedd, fyd.*"

**B7.** Ar sail ein profiad gyda BROcast Ffestiniog gwelir bod potensial a chyfle i ddatblygu darlledu cymunedol digidol ar hyd a lled Cymru gan rwydweithio ar draws Cymru ac yn rhyngwladol.

**B8.** Yn nannedd argyfwng amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol cyfalafiaeth trawswladol mae cymunedau ar hyd a lled y byd yn ymrymuso ac yn datblygu atebion amgen ar gyfer tawsnewid y drefn, o'r gwaelod i fyny. Rydym yn rhannu gweledigaeth gyda chymunedau o Califfornia i Cwrdistan.

**B9.** Eisoes mae sawl cymuned ar draws Cymru wedi dechrau rhwydweithio a chydweithio ac y mae Mudiad Cymunedol ar gyfer Cymru yn dechrau egino. Mae profiad cymunedau yn Sweden yn cynnig patrwm y gellir ei efelychu a'i addasu ar gyfer Cymru. Yn Sweden mae cymunedau ar hyd a lled y wlad wedi cydweithio i greu mudiad cymunedol gyda'i Senedd Cenedlaethol y Cymunedau sy'n sicrhau llais a phwerdy cymunedol grymus.

**B10.** Law yn llaw ag hyrwyddo model, maniffesto a mudiad cymunedol mae angen ystyried nid yn unig yr amcan ond hefyd y modd i drawsnewid y drefn. Ar draws y byd mae mudiadau blaengar wedi mabwysiadu egwyddor a dull di-drais o weithredu ac mae hyn, fel yn achos ymgyrchu dros y Gymraeg, wedi profi'n dra effeithiol.

**Er bod gan gyfalafiaeth rymoedd enfawr mae ganddom fel cymunedau arf cryfach nag hyd yn oed Plwtoniwm y drefn. Rydym yn rhannu cariad at gyd-ddyn, at degwch a chydraddoldeb ac at ryddid a gweledigaeth am gymuned wedi'i thrawsnewid yn lleol, yn genedlaethol ac yn gydwladol, ynghyd â dyfodol amgen i'n planed.**


Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog
'Fyny Grisiau'
5 Stryd Fawr
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd LL41 3ES

**CwmniBro@CwmniBro.Cymru**
**Brocast@cwmnibro.cymru**
**01766 830082**


WWW.CWMNIBRO.CYMRU